

Adolygiad gan Gymheiriaid o Ganser Wrolegol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd

YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD

Y Tîm Adolygu gan Gymheiriaid

Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Dr Tom Crosby	Cyfarwyddwr Meddygol y Rhwydwaith	Rhwydwaith Canser De Cymru
Mr Pradeep Bose	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Dr Mark Robinson	Radiolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Mr Hywel Morgan	Cyfarwyddwr Rhwydwaith	Rhwydwaith Canser De Cymru
Mr Bill Brereton	Adolygydd Lleyg	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Mrs Einir Price	Sylwedydd	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Sue Davies	Cydgysylltydd Adolygu	Rhwydwaith Canser De Cymru

Teitl Rhwydwaith	Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru	
Teitl Sefydliad	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
Teitl Tîm	Tîm Wroleg Lleol a Rhanbarthol Ysbyty Glan Clwyd	
Teitl Dyddiad Adolygu	13 Chwefror 2014	
Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Mr V Srinivasan	Llawfeddyg Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mr R Knight	Llawfeddyg Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mrs Anne Roberts	Cydgysylltydd Tîm Amlddisgyblaethol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dr Z Ali	Oncolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Teitl Rhwydwaith	Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru	
Teitl Sefydliad	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
Teitl Tîm	Tîm Lleol Ysbyty Maelor Wrecsam	
Teitl Dyddiad Adolygu	13 Chwefror 2014	
Enw (printiwch)	Teitl Swydd	Sefydliad
Mr E Ahiaku	Llawfeddyg Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mr K Alexandrou	Llawfeddyg Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dr M Lord	Nyrs Glinigol Arbenigol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Beth Walker	Gweithiwr Cymorth Macmillan	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Sue Hughes	Rheolwr Gwybodaeth Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mr K Shanmugasigamani	Cydgysylltydd Tîm Amlddisgyblaethol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mr F M Majdub	Locwm Graddfa Staff	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Teitl Rhwydwaith	Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru	
Teitl Sefydliad	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
Teitl Tîm	Tîm Lleol Ysbyty Maelor Wrecsam	
Teitl Dyddiad Adolygu	13 Chwefror 2014	
Enw (printiwch)	Teitl Swydd	Sefydliad
Mr A De Bolla	Llawfeddyg Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mr I Shergill	Llawfeddyg Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Sandie Jones	Nyrs Glinigol Arbenigol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Jennifer Jones	Gweithiwr Cymorth Macmillan	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Helen Lawrence	Rheolwr Gwybodaeth Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Sandra Davies	Cydgysylltydd Tîm Amlddisgyblaethol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Themâu Allweddol

1. Strwythur a Swyddogaeth y Gwasanaeth

Cyfarfu'r tîm adolygu gan gymheiriaid â chynrychiolwyr o dimau amlddisgyblaethol canserau wroleg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i adolygu eu gwasanaethau cancer wrolegol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnal tri thîm amlddisgyblaethol wroleg yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Glan Clwyd, sydd hefyd yn arwain y cyfarfod tîm amlddisgyblaethol wroleg rhanbarthol. Cafodd llawdriniaeth radical ei chanoli yn Ysbyty Gwynedd, ond mae rhywfaint o'r llawdriniaeth radical yn awr yn digwydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Mae cyflenwi gwasanaethau cancer wroleg i gymunedau iechyd gogledd Cymru yn heriol oherwydd daearyddiaeth y rhanbarth a'r pellter sylweddol rhwng y tri phrif ysbyty.

Mynegodd y tîm adolygu ei siom yn nifyg presenoldeb cynrychiolwyr y timau amlddisgyblaethol wroleg yn y cyfarfod adolygu gan gymheiriaid. Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod y timau wedi derbyn e-byst niferus (gyda digon o rybudd i gydweithwyr clinigol allu aildrefnu ymrwymadau clinigol) gan y tîm rheoli gwasanaethau cancer gyda manylion dyddiad ymweliad yr adolygwyr (yn unol ag ymweliadau blaenorol gan yr adolygwyr), gyda'r disgwyl y byddai'r tîm amlddisgyblaethol yn trefnu eu hymrwymadau clinigol er mwyn gallu mynychu'r cyfarfod adolygu gan gymheiriaid. Amlygwyd y diffyg ymgysylltiad clinigol â'r broses adolygu gan gymheiriaid hefyd yn y diffyg perchnogaeth glinigol o'r data a gyflwynwyd fel rhan o'r broses hunanasesu, a thrwy gydol y cyfarfodydd adolygu gan gymheiriaid daeth yn amlwg fod rhywfaint o'r data a gyflwynwyd ac a gytunwyd yn anghywir, gan ei gwneud yn anodd i'r panel adolygu gan gymheiriaid adolygu'r gwasanaeth yn feirniadol.

Nododd pob un o'r timau amlddisgyblaethol eu bod yn darparu clinig mynediad cyflym i atgyfeiriadau gofal heb ei drefnu a bod cleifion yn derbyn eu hapwyntiad cyntaf o fewn deg diwrnod. Mae tîm amlddisgyblaethol Ysbyty Glan Clwyd yn darparu clinig un stop ar gyfer gwaed yn y troeth a chlinig ar gyfer lefelau uchel o PSA; ar hyn o bryd, mae Ysbyty Gwynedd yn datblygu clinig un stop ar gyfer gwaed yn y troeth. Nid yw Ysbyty Maelor Wrecsam yn gallu darparu clinig un stop gan nad oes ganddo uned ddiagnostig benodol, ond mae clinig gwaed yn y troeth a chlinig lefelau uchel o PSA a arweinir gan nyrsys. Nododd timau amlddisgyblaethol Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam fod yn well ganddynt roi amser i gleifion feddwl am gael biopsi trawsrefrol wedi'i dywys gan uwchsain (TRUS), ac felly nid ydynt yn darparu clinigau prostad un stop.

Mae'r bwrdd iechyd yn darparu llawdriniaeth laparosgopig ar y prostad, ac, yn wir, nodwyd eu bod wedi arwain datblygiad y llawdriniaeth hon yng Nghymru, ac mae cleifion sy'n addas ar gyfer prostadectomi laparosgopig neu neffrectomi radical laparosgopig yn cael eu hatgyfeirio at y llawfeddygon laparosgopig dynodedig. Ymgymerir â phob llawdriniaeth arall fel triniaethau agored. Darperir trawsgyflenwi fel arfer ar gyfer gwyliau blynyddol, ond oherwydd problemau salwch ymysg staff ar hyn o bryd, nid oes cyflenwi ar gyfer y gwasanaeth llawfeddygol laparosgopig.

Nododd pob tîm ei fod yn rhwystredig oherwydd y diffyg wardiau wroleg neilltuedig ledled y bwrdd iechyd a'r effaith ar gymysgedd sgil y nyrsys i ofalu am gleifion yn dilyn llawdriniaeth. Nododd tîm amlddisgyblaethol Ysbyty Glan Clwyd fod llawdriniaethau cleifion yn cael eu canslo oherwydd diffyg gwelyau i gleifion mewnol.

Amlygwyd y ffaith bod gwasanaethau llawfeddygol wroleg wedi dod yn dameidiog yn

ddiweddar; yn flaenorol, roedd pob achos o ganser y pelfis radical yn cael ei drin yn Ysbyty Gwynedd gan lawfeddygon oedd yn teithio i roi llawdriniaeth i'w cleifion. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae llawdriniaeth canser y pelfis radical hefyd yn cael ei gynnig yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Roedd y newid yng nghyflenwad y gwasanaeth yn rhannol oherwydd dewis cleifion, oherwydd y pellter roeddent yn gorfod teithio i dderbyn eu llawdriniaeth, ac mae wedi datblygu yn sgil angen gan fod y gwasanaeth yn ddibynnol ar lawfeddyg profiadol sydd wedi cytuno i ddychwelyd i weithio ar ôl ymddeol er mwyn ymgymryd â llawdriniaeth canser y pelfis am gyfnod o chwe mis nes y bydd cynllun terfynol ar waith.

Mae radioleg ymyriadol ar gael ar bob safle, ond nid oes gwasanaeth ar alwad ffurfiol ledled y bwrdd iechyd. Mae cleifion sy'n addas i dderbyn abladiad radio-amledd yn cael eu hatgyfeirio i Ysbyty Arrowe Park yn y Wirral neu Ysbyty Brenhinol Prifysgol Lerpwl. Cydnabuwyd bod angen gwneud y canlynol i gyflawni argymhellion canllaw clinigol NICE CG175 ar ganser y prostat: Bydd diagnosis a thriniaeth i gyflwyno delweddu atseiniol magnetig (MRI) aml-barametrig a biopsïau templed yn cael effaith anferthol ar gapasiti o fewn adrannau radioleg ledled y bwrdd iechyd. Ar hyn o bryd, mae MRI aml-barametrig ar gael yn y lleoliad ymchwil yn Ysbyty Maelor Wrecsam; mae ar gael yn Ysbyty Glan Clwyd, ond nid yw'r cyferbyniad yn ddirchafedig. Nid yw MRI aml-barametrig ar gael yn Ysbyty Gwynedd, ac mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio at Ysbyty Arrowe Park. Nid oedd y tîm adolygu'n sicr bod unrhyw gynlluniau wedi eu cytuno ar gyfer ymdrin â goblygiadau cyflwyno MRI aml-barametrig neu fiopsïau templed.

Oherwydd ymddeoliad aelod uwch o staff yn ddiweddar, mae cymorth oncoleg ar gyfer tîm amlddisgyblaethol Ysbyty Glan Clwyd yn cael ei ddarparu gan un oncolegydd yn unig. Roedd mynediad at dechnolegau newydd fel radiotherapi â'i ddwystr wedi'i fodiweiddio (IMRT) yn amrywio ar draws y tri tîm yn ôl pob golwg, gyda mwy o gleifion yn derbyn IMRT a therapiâu cynorthwyol yn Ysbyty Gwynedd. Cydnabuwyd y gallai'r broblem hon fod yn gysylltiedig â chywirdeb y data a gyflwynwyd.

Nododd pob tîm bryderon ynghylch darpariaeth gwasanaethau patholeg yn y dyfodol, gan fod trafodaethau am ganoli'r holl wasanaethau patholeg ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar un safle.

Mynegodd pob tîm bryderon difrifol bod y diffyg galluedd clinigol wedi arwain at gleifion yn methu â derbyn gwasanaethau dilynol amserol a chydgylltiedig, ac mae perygl y gallai hyn fod wedi effeithio ar ganlyniadau i gleifion. Mae gwasanaethau dilynol yn cael eu harwain gan ymgynghorwyr oherwydd diffyg nyrsys wro-oncoleg arbenigol i roi cymorth i'r gwasanaeth wro-oncoleg ledled y bwrdd iechyd, a derbyniwyd bod hyn yn ddefnydd aneffeithlon o amser prin ymgynghorwyr.

Mae'r targedau amseroedd aros canser wroleg yn cael eu cyflawni ar gyfer y mwyafrif helaeth o gleifion, ond nododd y timau amlddisgyblaethol eu bod yn ei chael yn anodd cyflawni targedau'r amseroedd aros, a'u bod yn teimlo nad oedd y problemau llwybr sylweddol a'r ymdrech sydd ei hangen i'w goresgyn yn cael eu hadlewyrchu yn y data a gyflwynwyd fel rhan o'r broses hunanasesu. Nododd pob tîm amlddisgyblaethol ei bod yn arfer cyffredin i gleifion sydd ar fin torri targedau amser aros ar gyfer canser i gael gwahoddiad i gael llawdriniaeth mewn canolfannau yn Lloegr, ond mae'r bwrdd iechyd wedi cael trafferth wrth ddod o hyd i ganolfannau cyfagos gyda'r capasiti i ymgymryd â'r gwaith hwn. Hysbyswyd y tîm adolygu nad oedd yr arfer hwn wedi cael ei gyfathrebu'n eglur i staff nyrsio meddygol ac arbenigol a'i fod wedi arwain at rywfaint o bryder a dryswch.

Mae cyflwyno samplau'n ganolog i'r Banc Canser yn wael ac eithrio Ysbyty Gwynedd; cydnabu'r tîm adolygu'r diffyg o ran mynediad at gymorth nyrsio'r Banc Canser ledled y

bwrdd iechyd. Mae pob tîm yn hybu recriwtio prawf, ond cydnabuwyd bod y diffyg galluedd llawfeddygol ac oncoleg wedi arwain at recriwtio gwael ar gyfer y prawf STAMPEDE.

2 Gofal a Phrofiad sy'n Canolbwyntio ar y Claf

Mae prinder sylweddol o gymorth nyrsys clinigol wro-oncoleg arbenigol ledled y bwrdd iechyd. Mae gan Ysbyty Maelor Wrecsam 1.0 nyrs glinigol wroleg arbenigol cyfwerth ag amser cyflawn, nad yw'n neilltuedig i ganser, gyda chymorth gan weithiwr cymorth Macmillan. Nid oes gan Ysbyty Gwynedd nyrs glinigol arbenigol sy'n neilltuedig i wro-oncoleg, ac mae cleifion yn cael cymorth gan nyrs wroleg arbenigol cyffredinol ar sail ran-amser sydd â diddordeb mewn canser. Mae'r swydd nyrs glinigol arbenigol yn Ysbyty Glan Clwyd wedi bod yn wag am dair blynedd, ac nid oes hysbyseb wedi bod ar gyfer recriwtio.

Mae gan nyrs glinigol arbenigol Ysbyty Maelor Wrecsam glinigau ar gyfer gwaed yn y troeth ac ar gyfer lefelau uchel o PSA dan arweiniad nyrsys, a gwasanaethau systosgopi a biopsïau TRUS dan arweiniad nyrsys. Cadarnhaodd y nyrs glinigol arbenigol mai hi yw gweithiwr allweddol y cleifion a'i bod yn darparu cyngor a chefnogaeth wrth drafod opsiynau triniaeth a gofal dilynol, a'i bod yn cydgysylltu gofal cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio am lawdriniaeth radical yn Ysbyty Gwynedd.

Mae'r nyrs wroleg arbenigol rhan amser yn Ysbyty Gwynedd yn canolbwyntio ar gleifion sydd wedi cael eu hatgyfeirio am lawdriniaeth fawr; cadarnhawyd mai'r nyrs arbenigol yw gweithiwr allweddol y cleifion a'i bod yn darparu cyngor a chefnogaeth wrth drafod opsiynau triniaeth a gofal dilynol yn dilyn llawdriniaeth radical.

Nid oes nyrs glinigol wro-oncoleg arbenigol yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae'r tîm yn dibynnu ar gymorth gan y nyrsys wroleg arbenigol cyffredinol i roi cymorth i gleifion; mae cydgysylltydd y tîm amlddisgyblaethol yn cydgysylltu gofal y cleifion ac yn gweithredu fel gweithiwr allweddol y cleifion.

Mae'r diffyg nyrsys clinigol wroleg arbenigol yn cael effaith anferth ar y gwasanaeth wro-oncoleg yn nhermau datblygu gwasanaeth gan na ellir cyflwyno cynlluniau fel clinigau a gofal dilynol sy'n cael eu harwain gan nyrsys. Nodwyd yng nghofnodion cyfarfod Diwrnod Llwybrau Canser Wroleg a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2013 bod cyllid wedi ei sicrhau i benodi 2.0 nyrsys wroleg cyfwerth ag amser cyflawn ar Fand 7 – 1.0 nyrs cyfwerth ag amser cyflawn yn cael ei chyllido gan Prostate UK ac 1.0 nyrs cyfwerth ag amser cyflawn yn cael ei chyllido ar y cyd gan Macmillan a'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, ar adeg yr adolygiad nid oedd penodiadau wedi eu gwneud.

Nodwyd bod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr lefel uchel o siaradwyr Cymraeg, yn arbennig yng nghymuned iechyd Ysbyty Gwynedd. Nid yw'r tîm amlddisgyblaethol yn ymwybodol o angen heb ei fodloni am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg gan nad yw wedi ymgymryd ag arolwg cleifion i ganfod y galw am wasanaethau o'r fath.

a. Tystiolaeth gweithiwr allweddol

Mae'r diffyg adnoddau o ran nyrsys clinigol arbenigol wedi cael effaith ar swyddogaeth y gweithiwr allweddol ledled y bwrdd iechyd; nid oedd y tîm adolygu'n gallu dod o hyd i gofnod o weithiwr allweddol a enwir yn unrhyw un o'r samplau o nodiadau achos a ddarparwyd ar ddiwrnod y cyfarfod adolygu gan gymheiriaid.

3 Ansawdd a Chyflenwi Gwasanaeth

a. Cymorth i'r Gwasanaeth gan y Timau Amlddisgyblaethol

Mae pob tîm amlddisgyblaethol wroleg lleol yn brwydro i sicrhau presenoldeb llawn yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol. Roedd yn anodd mesur arwyddocâd clinigol y diffygion hyn oherwydd diffyg presenoldeb aelodau'r timau amlddisgyblaethol; er enghraifft, ni fynychodd un radiologydd a dim ond un pathologydd ac oncolegydd fynychodd y pedwar cyfarfod adolygu gan gymheiriaid a drefnwyd i adolygu gwasanaeth wroleg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Dywedwyd wrth yr adolygiad nad oes arweinydd ffurfiol i'r tîm amlddisgyblaethol yn Ysbyty Glan Clwyd. Nododd arweinydd blaenorol y tîm amlddisgyblaethol nad oedd bellach yn ystyried ei hun yn arweinydd y tîm amlddisgyblaethol a'i fod yn ei arwain oherwydd diffyg arweinydd ffurfiol. Nid oedd y swyddogaeth hon yn cael ei chydnabod yn ei gynllun swydd; mae'n mynychu'r tîm amlddisgyblaethol i roi cyfraniad llawfeddygol er mwyn cefnogi trafodaethau'r tîm. Nid oes gan y tîm nyrs glinigol arbenigol, ac ni fynychodd cynrychiolydd o'r adran patholeg y cyfarfod tîm amlddisgyblaethol ar ddeg (21%) achlysur. Mae'r swydd nyrs glinigol arbenigol yn swydd barhaol, ac nid oes neb wedi ei recriwtio i'r swydd am dros dair blynedd. Nododd y tîm amlddisgyblaethol ei fod wedi ysgrifennu at uwch-reolwyr yn gofyn am recriwtio nyrs glinigol arbenigol ond nad oedd wedi derbyn ateb. Gan nad oes gan dîm amlddisgyblaethol Ysbyty Glan Clwyd gymorth nyrsys clinigol arbenigol, mae cydgysylltydd y tîm amlddisgyblaethol yn gweithredu fel gweithiwr allweddol y cleifion ac yn cydgysylltu gofal y cleifion. Nid oes gan dîm amlddisgyblaethol Ysbyty Gwynedd nyrs glinigol wro-oncoleg arbenigol, ac mae cleifion yn cael cymorth gan nyrs wroleg arbenigol gyffredinol sydd â diddordeb mewn canser. Adroddodd y tîm nad oedd gan aelodau allweddol o radiograffeg a phatholeg yr ymroddiad i'r tîm amlddisgyblaethol sy'n cael ei nodi yn eu cynllun swydd, ac felly mae'r cyfarfod tîm amlddisgyblaethol yn cael ei gynnal am hanner awr cyn oriau gwaith arferol; mae nifer yr achosion a drafodir gan y tîm amlddisgyblaethol yn cael ei gyfyngu i naw er mwyn sicrhau nad yw'r cyfarfod yn gor-reddeg.

Mae presenoldeb da gan radioleg, patholeg ac oncoleg yng nghyfarfodydd Ysbyty Maelor Wrecsam, ac mae gan yr ysbyty nyrs glinigol wro-oncoleg arbenigol neilltuedig. Oherwydd baich gwaith, nid yw aelod o'r tîm gofal lliniarol yn gallu mynychu cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, ond mae llwybrau cadarn ar waith i atgyfeirio cleifion at y tîm gofal lliniarol.

Gofynnwyd i'r panel adolygu fynd ati i adolygu'r cyfarfod tîm amlddisgyblaethol wroleg rhanbarthol, ond ni wnaeth y tîm gyflwyno dogfennau hunanasesu i gefnogi'r drafodaeth. Tîm amlddisgyblaethol lleol Ysbyty Glan Clwyd sy'n arwain y tîm amlddisgyblaethol rhanbarthol, ac mae'n trafod achosion cymhleth. Mae aelodau timau amlddisgyblaethol Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam yn ymuno â'r cyfarfod rhanbarthol trwy gyswllt fideo, ond, oherwydd ymrwymadau i lawdriniaethau, mae'r llawfeddyg arwain yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn cael trafferth mynychu. Yn ystod y cyfarfod adolygu gan gymheiriaid, daeth i'r amlwg bod y tîm amlddisgyblaethol rhanbarthol yn dioddef o ddiffyg strwythur, trefn ac arweinyddiaeth, ac nid oedd yn glir a oedd y tîm amlddisgyblaethol rhanbarthol yn gweithredu fel model rhanbarthol i'r rhwydwaith.

b. Data Canlyniadau'r Gwasanaeth

	Ysbyty Glan Clwyd	Ysbyty Wrexham Maelor	Ysbyty Gwynedd	Targed
% o atgyfeiriadau gofal heb ei drefnu a dderbyniodd driniaeth o fewn 62 diwrnod	Prostad-92% Pledren-100% Arennol-100%	Prostad-89% Pledren-85% Arennol-63%	Prostad-100% Pledren-100% Arennol-0%	95%
% o atgyfeiriadau nad oeddent yn rhai gofal heb ei drefnu a dderbyniodd driniaeth o fewn 32 diwrnod	Prostad-98% Pledren-100% Arennol-100%	Prostad-98% Pledren-85% Arennol-66%	Prostad-99% Pledren-100% Arennol-? data	98%
% o gleifion gyda graddfa cyn-triniaeth wedi ei chofnodi	Prostad-60% Pledren-0% Arennol-14%	Prostad-30% Pledren-2% Arennol-67%	Prostate-54% Bladder-0% Renal-0%	70%
Nifer y cleifion a gafodd eu rhoi ar dreialon clinigol	56	36	24	10%
Nifer y cleifion yn rhoi i Fanc Cancer Cymru	0	0	42	
% y cleifion a drafodwyd yn y timau amlddisgyblaethol	Prostad – 100% Pledren – 100% Arennol-85%	Prostad-100% Pledren-100% Arennol-86%	Prostad-99% Pledren-100% Arennol-100%	100%
Amser canolrifol ar gyfer cleifion â charsinoma trosiannol celloedd y bledren sy'n ymledu i'r cyhyrau ar ddechrau triniaeth iachaol ddiffiniol	128	116	11	93 Diwrnod
Amser canolrifol at echdoriad trawswrethrol o diwmor y bledren (TURBT)	51	62	50	

a. Archwiliadau, prosiectau a chanlyniadau allweddol

Roedd diffyg gweithgarwch archwilio oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y gwasanaeth wro-oncoleg; nododd pob tîm ei fod yn cefnogi gweithgarwch archwilio'r rhwydwaith. Yn ddiweddar, mae Ysbyty Maelor Wrecsam wedi ymgymryd ag archwiliad o 250 o gleifion sydd wedi cael biopsi TRUS naill ai trwy gyfrwng gwasanaeth a arweinir gan nyrsys neu drwy ymgynghorydd cyswllt yn edrych ar eu cyfraddau cadarnhau cancer.

b. Sylwadau cyffredinol

Mynegwyd pryder ynghylch hunanasesu mewnol a diffyg ymgysylltiad y tîm â'r broses adolygu gan gymheiriaid. Mae'r diffyg arweinyddiaeth glinigol wedi arwain at gyflwyno gwybodaeth anghywir ac o ansawdd wael i gefnogi'r broses asesu mewnol. O ganlyniad, nid oedd y tîm adolygu gan gymheiriaid yn gallu cael darlun llawn o'r gwasanaeth a ddarperir

gan dîm wro-oncoleg y bwrdd iechyd.

Roedd y tîm adolygu'n siomedig oherwydd diffyg presenoldeb aelodau o'r timau amlddisgyblaethol wroleg yn y cyfarfod adolygu gan gymheiriaid. Gofynnwyd i'r panel adolygu gan gymheiriaid adolygu tri thîm amlddisgyblaethol lleol a'r tîm amlddisgyblaethol rhanbarthol, ond ni chafwyd cynrychiolaeth gan radioleg a dim ond presenoldeb cyfyngedig gan arbenigeddau eraill.

Nododd y tri llawfeddyg oedd yn ymgymryd â llawdriniaethau mawr eu bod yn eithaf agos at ymddeol, a nodwyd bod diffyg cynllunio ar gyfer dilyniant ar gyfer y gwasanaeth; roedd y broblem hon yn cael ei dwysáu gan ddiffyg cyfarwyddyd strategol gan y rheolwyr ar gyflenwi gwasanaethau wrolegol ar gyfer poblogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r bwrdd iechyd wedi sicrhau gwasanaeth llawfeddyg uwch, sydd wedi cytuno i ddychwelyd i weithio ar ôl ymddeol am y chwe mis nesaf yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Er bod y trefniant hwn yn sicrhau gwasanaeth diogel, nid yw'n gynaliadwy.

4 Adolygiad o Wybodaeth Glinigol yn y Nodiadau Clinigol

Adolygodd y tîm sampl o nodiadau achos ar gyfer chwech o gleifion ar draws y tri thîm. Roedd tystiolaeth mewn pump allan o chwech o'r nodiadau bod meddygon teulu'n cael hysbysiad am ddiagnosis o ganser o fewn 24 awr. Roedd tystiolaeth o drafodaeth y tîm amlddisgyblaethol a chynlluniau rheoli yn nodiadau achos Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd, ond ni ellid dod o hyd i gofnod o drafodaeth y tîm amlddisgyblaethol a chynllun rheoli yn y nodiadau achos a ddarparwyd gan Ysbyty Maelor Wrecsam. Cyfeirir at dystiolaeth y gweithiwr allweddol yn adran 2a.

5 Ymgysylltu â'r Rheolwyr

Pwysleisiodd y timau amlddisgyblaethol eu rhwystredigaeth oherwydd diffyg cyfeiriad strategol gwasanaethau wrolegol ledled Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae ad-drefnu gwasanaethau wrolegol wedi cael ei rwystro gan ddiffyg ymroddiad rheolwyr, yn rhannol oherwydd diffyg eglurder ynghylch ad-drefnu'r bwrdd iechyd ac ailstrwythuro gwasanaethau'n barhaus. Mae pryderon ynghylch capasiti, diffyg ward wroleg neilltuedig, gofal dilynol, a recriwtio aelodau allweddol o'r tîm amlddisgyblaethol wedi cael eu mynegi i'r rheolwyr, ond nid ydynt wedi cael eu datrys. Mae llythyrau wedi cael eu hysgrifennu at yr uwch dîm rheoli yn manylu ar bryderon y timau, ond mae'r tîm rheoli wedi methu ag ymateb i'w pryderon.

Roedd yn amlwg bod diffyg cefnogaeth gan y rheolwyr i'r gwasanaeth wro-oncoleg, gan nad oedd unrhyw gynrychiolaeth o'r Grŵp Rhaglen Glinigol llawdriniaethol yn y cyfarfod adolygu gan gymheiriaid.

6 Diwylliant y Timau

Roedd yn amlwg bod y diffyg cyfeiriad clir ar gyfer gwasanaethau wroleg wedi effeithio ar y berthynas weithio rhwng y tri thîm amlddisgyblaethol. Nid oes unrhyw gonsensws clinigol clir na chonsensws sy'n cael ei arwain gan y rheolwyr ar gyfer y model cytûn ar gyfer gwasanaethau wro-oncoleg, ac mae hyn wedi arwain at achosi i'r gwasanaethau wro-oncoleg ddod yn dameidiog. Mae'r diffyg arweinyddiaeth glinigol wedi cael effaith ar allu'r tîm i symud ymlaen gydag unrhyw gynlluniau i wella'r gwasanaeth. Nid oes dull cyffredin o weithio ar gyfer cyflenwi'r llwybr clinigol i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal diogel a theg sy'n canolbwyntio ar y claf.

ARFER DA / CYFLAWNIADAU ARWYDDOCAOL

Bwrdd Iechyd

- Darparu llawdriniaeth laparosgopig
- Gweithgarwch treialu clinigol

Ysbyty Maelor Wrecsam

- Clinigau gwaed yn y troeth ac ar gyfer lefelau uchel o PSA a arweinir gan nyrsys
- Nyrsys clinigol arbenigol yn ymgymryd â biopsïau TRUS
- Gwybodaeth cleifion a disgiau DVD da
- Penodi gweithiwr cymorth Macmillan fel rhan o'r tîm nyrsio

Ysbyty Glan Clwyd

- Clinig diagnostig un stop

Ysbyty Gwynedd

- Cyflwyniadau gwych o samplau i'r Banc Canser
- Mynediad at radiotherapi â'i ddwystrer wedi'i fodiwleiddio (IMRT) a chemotherapi cynorthwyol

PERYGLON AR UNWAITH

DIM

PRYDERON DIFRIFOL

- Y pryder mwyaf a nodwyd oedd diffyg consensws oedd yn cael ei arwain yn glinigol neu gan reolwyr ynghylch y model cyflenwi ar gyfer gwasanaethau cancer wrolegol yng ngogledd Cymru.
- Ymgysylltiad clinigol â'r broses adolygu gan gymheiriaid a phresenoldeb yn y cyfarfod adolygu gan gymheiriaid.
- Nododd y timau amlddisgyblaethol fod cleifion wedi colli gofal dilynol neu wedi dioddef oedi a'u bod wedi dirywio wrth aros am eu hapwyntiad.
- Strwythur, trefniant ac arweinyddiaeth y tîm amlddisgyblaethol rhanbarthol.
- Darpariaeth nyrsys clinigol arbenigol yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd.
- Diffyg cynllunio ar gyfer dilyniant i ddarparu'r ehangiad angenrheidiol ar gyfer capasiti llawfeddygol a radioleg yn y dyfodol.
- - Roedd y tîm adolygu gan gymheiriaid yn bryderus iawn nad oeddent wedi

cael sicrwydd y byddai gwasanaethau cancer wrolegol diogel o ansawdd uchel yn cael eu darparu yn y dyfodol. Awgrymodd rhai aelodau o'r panel fod hwn yn risg ar unwaith, ond yn y pen draw penderfynwyd cynnig ail-redeg y broses adolygu llawn hon gan gymheiriaid ymhen 12 mis.

PRYDERON

- Perchnogaeth glinigol o'r data a ddarperir i gefnogi'r broses hunanasesu
- Diffyg wardiau wroleg neilltuedig
- Capasiti ar gyfer cleifion allanol a chleifion mewnol
- Capasiti radioleg yn sgil y diweddariad diweddar o ganllawiau NICE
- Diffyg cymorth gweithiwr allweddol yn gyffredinol ledled y bwrdd iechyd, yn arbennig ar gyfer cleifion Ysbyty Glan Clwyd gan fod cydgysylltydd y tîm amlddisgyblaethol yn cael ei hadnabod fel yr unigolyn sy'n darparu cymorth gweithiwr allweddol
- Trefniadau ad hoc i sicrhau bod gwasanaethau llawfeddygol wro-oncoleg ar gael yn Ysbyty Maelor Wrecsam
- Diffyg arweinyddiaeth ar gyfer tîm amlddisgyblaethol Ysbyty Glan Clwyd
- Nid yw presenoldeb mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol yn cael ei nodi yng nghynllun swyddi'r radiolegydd a'r patholegydd yn Ysbyty Gwynedd